




Ar un adeg, roedd y maes parcio wrth gefn gwesty'r 'Knighton' (11) yn farchnad ddefaid,  gyda sinema y tu ôl iddi ar un adeg. Yn y pen pellaf, cerddwch dros bont droed  sy'n croesi Nant Wylcwm a dilynwch y llwybr ger y nant i George Road. "The Cwm" - dyna yw'r enw ar y rhan hon o'r dref. Mae yma nifer o hen fythynnod hyfryd, gan gynnwys yr un ar y chwith, sef "The Town Crier's House" (12) - ac ydy, wir, mae Crïwr y Dref yn e'n dal i fyw yno.

Ewch ymlaen ar hyd George Road nes cyrraedd y bwthyn 'Cross Cottage'; trowch yn syth i'r dde ar hyd llwybr canllaw, yna i'r chwith i Plough Road.

Mae safle'r castell - Banc y Castell (Castle Bank) - nawr ar y dde i chi ond does yma fawr ddim i'w weld o'r ochr hon. Wrth ymyl yr orsaf dân, trowch i'r chwith i Market Street.

Trowch i'r dde i Ffordd Offa (Offa's Road) er mwyn dychwelyd i Ganolfan Clawdd Offa, neu ewch ar hyd y dargyfeiriad byr canlynol er mwyn gweld rhan o Glawdd Offa (13).

Ostryd y Farchnad, trowch i'r chwith i Ffordd Pen-y-bont (Penybont Road), gan fynd heibio'r Hen Orsaf Dân  a 'The Laurels'. Ymhen tua 20 llath, dilynwch y llwybr troed ar y chwith am tua 40 llath ar hyd cefnau'r tai newydd. Wrth ymyl mast metel trithroed, camwch i ben y llethr ar y chwith a sbeciwch dros y berth - yma fe welwch ran o'r Clawdd sy'n dal mewn cyflwr da iawn. Mae'r ffos ar ochr Cymru - eich golygfan bresennol.

Wrth ddychwelyd ar hyd Ffordd Offa, yno ar y llethr ar y dde fe welwch ran arall o Glawdd Offa - ond nid yw'r rhan hon mor hawdd ei hadnabod.



Mae'n bosib eich bod chi nawr yn haeddu 'paned yn un o'r caffis yng nghanol y dref!

Llwybr Tref-y-clawdd

2½ milltir

deuach i ddarganfod cuddfannau trefyelo



Canolfan Clawdd Offa


Dechreuwch yng Nghanolfan Clawdd Offa (rhif (1) ar y map) yn West Street (LD7 1EN) lle mae digonedd o safleoedd parcio. Agorwyd y ganolfan hon yn 1999 a chaiff ei rhedeg gan Gymdeithas Clawdd Offa. Dyma'r lle i fynd am fanylion am y gwrthglawdd hynafol ar y gorau sy'n cael ei adnabod fel Clawdd Offa, ac am Llwybr Clawdd Offa, taith 177 milltir o hyd, sydd bellach yn Llwybr Cenedlaethol. Mae'r ganolfan hefyd yn gwasanaethu fel Canolfan Groeso Trefyelo, ac yn gwerthu mapiau, teithlyfrau cerdded, a llyfrau am yr ardal. 

Dechreuwch drwy gymryd y llwybr y tu ôl i'r Ganolfan a cherddwch ar draws y cae chwarae, gan gadw i'r chwith hyd ddiwedd y llwybr graean. Croeswch y banc pridd (sy'n rhan o'r Clawdd mewn gwirionedd) er mwyn dod o hyd i'r Garreg (2) sy'n coffáu agor y llwybr Cenedlaethol yn 1971 gan yr Arglwydd Hunt (o'r cyrch enwog hwnnw ar Everest). 

Deuach yn eich ôl i'r Ganolfan a chroeswch West Street i Norton Street gan ddringo i'r pen uchaf. Dyma hen Sgwâr y Farchnad, sef canolbwynt y dref yn y canol oesoedd, a hen safle'r Farchnad Fenyn a Neuadd y Farchnad (3). O amgylch y sgwâr gwelir nifer o hen fythynnod, ac ar draws y sgwâr, rhwng Bwthyn y Porthmon ('Drover's Cottage') a Bwthyn Hamar ('Hamar's Cottage'), fe welwch Fanc y Castell ('Castle Bank') (4), safle un o gestyll Normanaidd Trefyelo, sydd bellach yn ardd breifat. 

Gyferbyn â phen uchaf Norton Street mae'r sgwâr yn arwain ymlaen i ffordd y castell, Castle Road. Trowch i'r chwith wrth fynd i lawr y stryd fawr - High Street - a elwir "The Narrows".  Tai yn dyddio o'r 17eg ganrif yw'r rhain gan fwyaf. Er yn gul iawn, dyma'r briffordd drwy'r dref tan 1931 pan gafodd West Street ei llydanu. Mae Tŵr y Cloc (5), a adeiladwyd yn 1872, i'w weld ar y gwaelod.





Bwthyn Molly

Trowch i'r chwith i *Russell Street* wrth ymyl gwaelod y stryd fawr (*High Street*), er mwyn gweld Bwthyn Molly ('Molly's Cottage': 1678) rhyw 20 llath i fyny ar y chwith ←

Ewch yn ôl i'r stryd fawr ac yna i lawr at Dŵr y Cloc.

Y Siop 'kebabs' ar y chwith – 'Chandos House' yw hwn a adeiladwyd gan y Dug Chandos ar ddiwedd yr 17eg ganrif. Dymchwelwyd yr adeilad hwn yn rhannol yn 1931 er mwyn llydanu *West Street*. Gyferbyn, fe welwch yr Hen Dŷ – 'The Old House' – tŷ cwplws (ffrâm nenfforch) a adeiladwyd yn y 15fed ganrif, gyda thalwyneb o gyfnod diweddarach. ←

Yn arwain i lawr o Dŵr y Cloc mae *Broad Street* → – y brif ardal siopa erbyn heddiw, sy'n cynnig amrywiaeth o siopau cyffredinol ac arbenigol a nifer o gaffis. Mae tafarn y 'George & Dragon' sy'n dyddio o 1637 ar y dde; daw paneli pren y bar o hen eglwys y plwyf.

Cerddwch ar hyd *Broad Street* i sgwâr *Brookside* (6), wrth droed y rhiw. Dyma 'The Bull Ring' (Talwrn y Teirw) ar un adeg. Yn y fan hon mae Nant Wylcwm yn llifo dan y ffordd (rhyd oedd yma'n wreiddiol), ac mae Cofgolofn y Milwyr ar y chwith. Gyferbyn, mae Gwesty'r 'Knighton' (gynt y 'Norton Arms') a'r Ystafelloedd Cynnull ('Assembly Rooms'). Y tu hwnt i'r sgwâr mae stryd y bont, sef *Bridge Street*, y'n arwain i ben y rhiw: yma ceir nifer o dai mawr o'r 17eg ganrif – 'Whitehall' a'r 'Swan' (bwyty 'Saffron' heddiw) ar y chwith, a'r tŷ mawreddog – 'The Great House' → ar y dde, gyferbyn ag archfarchnad ddihafal Harry Tuffin.



Yr Hen Dŷ



Edrych i fyny tua "The Narrows"



O *Brookside Square* cerddwch am ryw ychydig i lawr ffordd yr orsaf – *Station Road* – i'r 'Horse & Jockey' (mae rhannau o'r adeilad yn dyddio nôl i'r 15^{fed} ganrif) ac yno trowch i'r chwith i *Wylcwm Street*. Ar dop y stryd ar y dde mae Warws Rutter – hen warws wlân, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y fasnach wlân yn Nhrefcyclo yn yr 1800au. Trowch i'r dde i *Church Street* ac o'ch blaen fe welwch Eglwys Sant Edward (7) – un o ddwy eglwys yn unig yng Nghymru a gysegrwyd i'r Sant hwn. ←

Mae rhannau o'r eglwys yn dyddio o tua'r 11^{eg} ganrif – ond ailadeiladwyd prif gorff yr eglwys yn 1876. Gyferbyn, mae'r elusendai, sef 'The Green Price Almshouses', a godwyd yn 1900. →

Trowch i'r dde wrth yr eglwys i *Church Road*. Ar y gwaelod, ar y chwith, mae 'Ystrad House' – enghraifft wych o adeilad o'r 18^{fed} ganrif. Trowch i'r chwith yn y fan hon i ymweld â'r orsaf (8). ↓ Daeth Cwmni Rheilffordd 'Central Wales' â threnau i Drefcyclo yn 1861, gan roi hwb mawr i economi'r dref. Gellid symud anifeiliaid yn syth o farchnadoedd y dref i Loegr yn ogystal â chario nwyddau nôl; roedd yn llawer haws hefyd i'r trigolion lleol ddod i'r dref i siopa.



Elusendai Green Price



Ystrad House



Ewch yn ôl i 'Ystrad House', ↑ ac yna ymhen rhyw ychydig trowch i'r chwith i *Bowling Green Lane*. Ar y dde mae'r farchnad anifeiliaid bresennol ac mae Canolfan hardd y Gymuned o'ch blaen. Cerddwch yn syth ymlaen wrth ymyl y cyfleusterau cyhoeddus, ← gan ddilyn y llwybr tua'r chwith ac i fyny'r rhiw ← at safle castell Normanaidd arall Trefcyclo, sef Bryn y Castell (9). Mae tomen y castell ar safle da ac yn edrych dros afon Teme ac ar hyd dyffryn Teme draw i Loegr.

Nid yw haneswyr yn gytûn ynglŷn â ph'un o'r ddau gastell yw'r hynaf. Cofnodir yn Llyfr Dydd y Farn (*Domesday Book*) bod 'Knighton' (enw gwreiddiol Saesneg Tref-y-clawdd/ "Trefcyclo") yn 1086 yn nwylo 'Hugh the Donkey' (a enwyd felly oherwydd ei ystyfnigrwydd!). Dinistriwyd Castell *Castle Bank* gan Llewelyn ap Gruffydd (Ein Llyw Olaf) yn 1262.

Ewch yn ôl i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol, gan gadw i'r chwith hyd ben eithaf *Bowling Green Lane* wrth archfarchnad Harry Tuffin. Trowch i'r dde lawr stryd y bont – *Bridge Street*, gan fynd heibio'r tŷ mawreddog – 'The Great House' (10) ar y chwith, a nôl i sgwâr *Brookside*. Trowch i'r chwith ar hyd *Larkey Lane*.

